Duw mawr y rhyfeddodau maith

Caneuon Ffydd: Rhif 216

Duw mawr y rhyfeddodau maith,
rhyfeddol yw pob rhan o'th waith,
ond dwyfol ras, mwy rhyfedd yw
na'th holl weithredoedd o bob rhyw:
pa dduw sy'n maddau fel tydi
yn rhad ein holl bechodau ni?

O maddau'r holl gamweddau mawr
ac arbed euog lwch y llawr;
tydi yn unig fedd yr hawl
ac ni chaiff arall ran o'r mawl:
pa dduw sy'n maddau fel tydi
yn rhad ein holl bechodau ni?

O boed i'th ras anfeidrol, gwiw
a gwyrth dy gariad mawr, O Dduw,
orlenwi'r ddaear faith â'th glod
hyd nefoedd, tra bo'r byd yn bod:
pa dduw sy'n maddau fel tydi
yn rhad ein holl bechodau ni?

SAMUEL DAVIES, 1723–61
cyf. J. R. JONES, 1765–1822

MYFYRDOD

Cyflwynir ein Duw trwy'r Ysgrythurau fel un sy'n gwneud rhyfeddodau: 'Ti yw y Duw sydd yn gwneuthur rhyfeddodau', meddai'r Salmydd amdano'n aml (Salm 77:14 yn ein Hen Gyfieithiad). Mae'r emynydd J. R. Jones yn ei gyfieithiad yma o emyn Saesneg Dr Samuel Davies yn dweud bod pob rhan o waith Duw yn rhyfeddol, ond eto bod angen inni osod gras Duw tuag atom 'pryfed llwch y llawr' (fel sydd ganddo yn ail bennill y gwreiddiol) ar lwyfan uwch na holl ryfeddodau eraill Duw. Mae gras Duw yn estyn maddeuant rhad i bechaduriaid yn destun i orfoleddu ynddo a synnu ato. Mynega'r syndod hwn wrth ofyn yr un cwestiwn rhethregol ar ddiwedd pob pennill, un y gŵyr nad oes ateb iddo, ac felly y gall ofyn gyda hyder: 'pa dduw sy'n maddau fel tydi yn rhad ein holl bechodau ni?'

Mewn cynhadledd ryw dro a oedd yn edrych ar wahanol

nodweddion a rhinweddau gwahanol grefyddau, fe fynegodd C. S. Lewis, yr awdur Cristnogol toreithiog, mai 'gras' oedd y nodwedd unigryw mewn Cristnogaeth nad oedd i'w chael yn unman arall. Gallai yntau fod wedi dyfynnu cwestiwn ein hemynydd a chael nad oes neb yn gallu cynnig i ni dduw tebyg i'n Duw ninnau, sydd wedi cynnig y fath faddeuant inni trwy ei Fab ei hun ar y groes; maddeuant nad yw'n dibynnu ar weithredoedd pobl nac ar eu gallu, ond maddeuant sydd o ras yn unig: 'Trwy ras yr ydych wedi eich achub, trwy ffydd. Nid eich gwaith chwi yw hyn; rhodd Duw ydyw' (Eff. 2:8).

Ceir anogaeth yn yr emyn i fynd ati hefyd i gymharu ein Duw ni â duwiau eraill er mwyn cael datgan gyda'r Salmydd eto ei fod 'goruwch yr holl dduwiau' (Salm 96:4, BWM). Felly y gwnaeth William Williams Pantycelyn, gan fynd ati yn ei lyfr *Pantheologia* i gasglu gwybodaeth am holl grefyddau'r byd, gan ei addysgu ei hun ac eraill amdanynt. Mae gwybodaeth yn dileu rhagfarn ac yn esgor ar oddefgarwch hefyd. Ond diben ei ymchwil oedd argyhoeddi ei enaid ei hun o gariad tuag at ei Waredwr er mwyn cael ei ddyrchafu yn ei galon ei hun yn gyntaf 'goruwch yr holl dduwiau'.

Ni allwn ein hargyhoeddi ein hunain o werth maddeuant graslon a rhyfeddol Duw inni yn Iesu Grist, heblaw ein bod wedi ei brofi. Oni bai ein bod wedi hawlio maddeuant llawn a rhad, allwn ni ddim cerdded ymlaen gyda Duw, gan adael pechodau'r gorffennol o'n holau. Dyma sail hefyd ein maddeuant i eraill: 'maddau i ni ein dyledion fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr', meddem yng Ngweddi'r Arglwydd, ac os oes rhyw gyndynrwydd i faddau i eraill ynom ni, yna mentrwn ddweud nad ydym wedi sylweddoli maint, pris na gwerth maddeuant rhad Duw i ni yng Nghrist.

GWEDDI

O, Arglwydd mawr 'goruwch yr holl dduwiau', argyhoedda fy enaid i fy hun nad oes duw tebyg i ti i'w gael sydd yn cynnig maddeuant mor raslon a rhad i mi. 'Ni chaiff arall ran o'r mawl' gennyf Arglwydd, a rho dy gymorth imi hefyd i estyn fy maddeuant innau yr un mor rhad a graslon i'r rhai sydd yn troseddu yn fy erbyn innau. Oherwydd ac er mwyn Iesu Grist. Amen.